

GWASANAETH AR GYFER SUL DIOGELU 2023

CROESO:

Croeso ichi i gyd i'n Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth Sul Diogelu hwn wedi'i baratoi fel rhan o waith y Panel Diogelu Cydenwadol ond mae diogelu hefyd yn rhan bwysig o'n gwaith fel Eglwysi lleol wrth i ni weithio gyda phlant ac oedolion bregus.

GWEDDI AGORIADOL :

Wrth inni adleisio geiriau Archesgob Oscar Romero, Gweddïwn:

O Dad, ein gweddi wrth inni ddod i addoli, yw ein bod yn cael golwg ar y byd fel y mae dy gariad Di yn ei ddangos inni:

Byd ble mae'r gwan yn cael eu gwarchod, neb yn dlawd a neb yn newynu.

Byd ble mae cyfoeth y greadigaeth wedi'i rannu'n deg a phawb yn gallu ei fwynhau.

Byd ble mae'r gwahanol genhedloedd yn byw mewn cytgord a pharch.

Byd ble mae heddwch wedi'i sylfaenu ar gyfiawnder, a chyfiawnder ar gariad.

Rho inni'r weledigaeth a'r dewrder i'w adeiladu ar y sylfeini hyn, er mwyn Iesu Grist, Amen.

EMYN 1: RHIF 17 Dyro inni dy arweiniad, Arglwydd, drwy'r oedfa hon (Caneuon Ffydd)

neu **RHIF 46** O Dad, fe'th garwn, addolwn, gogoneddwn (Caneuon Ffydd)

GWEDDI DIOGELU 2023: Gallwch ddangos y ffilm [gweddi diogelu](#) 2023 neu ei ddarllen o'r nodiadau yn y diwedd (tud 6)

ARWEINYDD:

Yn ogystal â darparu adnoddau fel y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus a'r gwasanaeth hwn, mae'r Panel Diogelu yn darparu cyngor, cefnogaeth a hyfforddiant i'r rhai sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant ac oedolion bregus yn yr eglwys leol. Efallai ein bod yn cysylltu diogelu yn bennaf â'r angen i wneud cais am wiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), ond mae diogelu yn llawer mwy na llenwi ffurflenni...

Gelwir heddiw yn 'Sul Diogelu', er bod hynny i raddau yn gamarweiniol, oherwydd fe ddylai pob Sul fod yn Sul Diogelu mewn gwirionedd ac fe ddylai pob rhan o'n gweithgareddau fel Eglwys fod yn weithgareddau diogel ble mae pob aelod sy'n mynychu'r gweithgareddau hynny, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn teimlo'n ddiogel. Mae creu Eglwys Fwy diogel yn golygu bod pawb ohonom sy'n ymwneud â'r Eglwys yn sicrhau diogelwch pawb o fewn ein gweithgareddau ac yn rhoi sicrwydd i bob unigolyn sy'n mynychu eu bod yn ddiogel.

GWEDDI:

Deuwn atat mewn gweddi O Dduw ein Tad, ein crëwr a'n cynhaliwr gan wybod dy fod yn noddfa ac yn nerth mewn cyfyngder.

Cynorthwya ni i agor ein llygaid i weld prydferthwch dy greadigaeth a dysg ni i fod yn ddinasyddion cyfrifol sy'n parchu'r greadigaeth honno.

Cynorthwya ni i agor ein llygaid i weld y da a'r gwir mewn gweithredoedd caredig cyd-ddyn.

Cynorthwya ni i agor ein clustiau i wirioneddau dy Air ac i glywed cri yr anghenus a'r rhai unig ble bynnag y bônt.

Cynorthwya ni i agor ein calonnau i brofi angerdd dy gariad di yn Iesu Grist ac i weithredu yn ôl dy ewyllus Di ymhob gweithred o'n heiddo. Amen

ARWEINYDD 2:

Mae pennod gyntaf y Beibl yn wybyddus i bawb ohonom. Y disgrifiad o'r creu sydd yno fel y gwyddoch - Duw yn rhoi trefn ar yr anrhefn ac yn dwyn bywyd i'r byd. Cawn ein hatgoffa bedair gwaith yn nechrau'r Hen Destament bod y ddynoliaeth wedi'i chreu ar 'lun a delw' Duw. Mae bodau dynol yn bwysig. Maen nhw'n bwysig i Dduw ac felly dylent fod yn bwysig i ni. Mae'r ffordd rydyn ni'n trin pobl yn dangos sut ryden ni'n trin Duw. Oni fydden ni am drin Duw gyda'r gofal gorau posib? Felly, oni ddylen ni drin pob unigolyn hefyd yn y modd gorau posib? Fydden ni ddim am i Dduw gael ei frifo, felly oni ddylen ni sicrhau bod pob unigolyn hefyd yn rhydd o unrhyw berygl?

Ym **Mathew 25** mae Iesu, yn datgan wrth ei ddilynwyr sut y dylent ystyried y rhai bregus. Mae'n dweud wrth i ni gynorthwyo'r rhai mwyaf bregus, ein bod yn dod wyneb yn wyneb â Christ. Nid gweld ymhob unigolyn 'lun a delw Duw' o Genesis y byddwn ond Crist ei Hun. Mwyaf bregus y mae person, mwyaf y risg y caiff ei gam-drin neu ei cham-drin. **Yn Mathew 25**³¹⁻⁴⁶ mae Iesu'n trafod bywyd tragwyddol. Pan ddaw 'Mab y Dyn yn ei holl ogoniant' meddai, fe holir pob un ohonom a fyddem wedi gwneud y canlynol:

- A roesoch fwyd imi pan oeddwn yn newynog?
- A roesoch ddiod imi pan oeddwn yn sychedig?
- A gymerasoch fi i'ch cartref pan oeddwn yn ddiethr h.y yn 'nabod neb' (Beibl.net) ?
- A roesoch ddillad amdanaf pan oeddwn yn noeth?
- A ymwelasoch â mi pan oeddwn yn glaf?
- A ddaethoch ataf pan oeddwn yng ngharchar?

Yr hyn a gawn ni yma felly yw rhai o'r sefyllfaoedd yr oedd Iesu'n eu hystyried a wnâi pobl yn fregus.

(Gellir darllen Efengyl yn ôl Mathew 25³¹⁻⁴⁶ os dymunir)

EMYN 2: Rhif 816 Cofia'r newynog, nefol Dad (Caneuon Ffydd)

ARWEINYDD:

Ond beth am y gair bregus. Mae'n air sensitif, anodd iawn ydi dweud wrth rywun eu bod yn fregus. Ond onid yw pawb ohonom yn fregus ar wahanol adegau o'n bywydau? Onid bregus oedden ni pan gawsom ein geni? Ac mi welwn ambell i blentyn yn cychwyn yr ysgol am y tro cyntaf – bregus yw llawer ohonynt – colli rhiant neu warchodwr a symud i fyd cwbl newydd iddynt. Salwch wedyn neu brofedigaeth. Onid bregus yden ni ar gyfnod felly? Neu a bod yn wamal am ychydig, beth am gadair y deintydd a'r nodwydd yn edrych ddwywaith ei maint yn y golau llachar? Ac os bu rhywun yn **fregus erioed, Iesu ei hun** oedd hwnnw. Mor fregus nes i'w rieni orfod ffoi gydag o i'r Aifft, Ac yna wedyn yng Ngardd Gethsemane â'r chwys fel dafnau o waed wrth iddo weddio i'r cwpan chwerw a'i hwynebai gael ei atal. Tybed a oes sefyllfa mwy bregus na chael eich croeshoelio?

DARLLENIAD:

Yn Efengyl Luc 10²⁵⁻³⁷ cawn ddameg cwbl gyfarwydd inni sef dameg y **Samariad Trugarog**.

Luc 10²⁵⁻³⁷ Y Samariad Trugarog

Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf arno, gan ddweud, "Athro, beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol?" Meddai ef wrtho, "Beth sy'n ysgrifenedig yn y Gyfraith? Beth a ddarlleni di yno?" Atebodd yntau, "Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth ac â'th holl feddwl, a châr dy gymydog fel ti dy hun." Meddai ef wrtho, "Atebaist yn gywir; gwna hynny, a byw fyddi." Ond yr oedd ef am ei gyfiawnhau ei hun, ac meddai wrth Iesu, "A phwy yw fy nghymydog?" Atebodd Iesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jerich, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael yn

hanner marw. Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth heibio o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o Samariad ato; pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' Prun o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?' Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrth, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

MYFYRDOD:

Mae'r ddameg hon yn dweud llawer wrthon ni sut y dylem ymddwyn. Gadewch inni edrych ar y ddameg o ongl ychydig yn wahanol am funud.

Gwasanaeth ydi hwn sy'n trafod bod yn ddiogel a bod yn ofalgar, ond gadewch inni edrych ar rai o nodweddion rhywun sy'n groes i ofalgar. An-ofalgar hwyrach fyddai'r gair.

(ad25) Dyma un o athrawon y Gyfraith yn codi i roi prawf arno... Nid cyfreithiwr fel ryden ni'n meddwl am gyfreithiwr, ond un oedd yn gwybod y Gyfraith Hebreig - Arbenigwr Cyfraith yr Hen Destament. Gwaith hwn oedd dadansoddi Cyfraith Moses a'i gwneud yn berthnasol i'r bobl. Ond pwy oedd y dyn yma? Ai Offeiriad, un o'r Ysgrifenyddion? Un o'r Sadwceaid (nad oedd yn credu mewn bywyd tragwyddol)? Wyddon ni ddim.

yn codi i roi prawf arno.. Doedd ganddo ddim diddordeb yn nysgeidiaeth Iesu, dim ond ceisio ei faglu yr oedd o. Ond dydi Iesu ddim yn cael ei ddal mor hawdd. Ac mae yn yr efengylau nifer o enghreifftiau o bobl yn ceisio ei ddal a'i brofi.

Athro beth a wnaif i etifeddu bywyd tragwyddol? Nid dyn eisiau gwybod y gwirionedd, nid dyn ar daith pererindod ffydd oedd hwn, ond dyn yn chwarae ar eiriau, dyn yn gosod magl. h.y. 'Os wyt ti'n credu y pethau yr wyt ti wedi eu honni, dwêd wrtha i sut mae cael bywyd yn ei gyflawnder, sut y galla i gael hapusrwydd rŵan ac am dragwyddoldeb?' Eisiau gwybod beth fyddai ateb Iesu y mae o, er mwyn parhau i chwarae'r gêm.

(ad 26) Ond mae Iesu yn ateb trwy droi'r cwestiwn yn ôl i'r dyn oedd yn ceisio ei faglu.

Beth sy'n ysgrifenedig yn y Gyfraith. Beth a ddarlleni di yno.?

Mae Iesu'n gwybod beth oedd yn ysgrifenedig yn y Gyfraith. Ond mae'n gofyn beth a **ddarlleni di**, neu yn hytrach beth **ddywedi di** sydd yn y gyfraith? **Sut wyt ti (fel athro'r Gyfraith) yn ei ddehongli? Be mae o'n ei olygu i ti?**

Wrth reswm fedrai'r dyn ddim rhoi ateb gwahanol i'r hyn roddodd o. Ateb arferol, heb ymhelaethu a wnaeth y dyn. Ateb un oedd yn gwybod y Gyfraith yn drwyadl.

Mae adnod 29 yn dangos pa mor ddygn oedd y dyn hwn am geisio baglu Iesu. Bron na allwn ddweud ei fod yn cael hwyl arni. Mae'n gofyn yn llawn hyder '**A phwy yw fy nghymydog?**' Ac mi glywn rhyw goegni yn ei lais. Mae rŵan yn meddwl ei fod wedi cael y gorau o Iesu OND...

Mae'r ddameg mae Iesu'n ei hadrodd yn ei lorio'n llwyr.

Mae ffordd o Jerwsalem i Jerico tua 20 milltir troellog, unig. Ffordd hir, droellog ac anial. Ffordd y byddai lladron yn ei mynychu. Y Gair Groeg mae'n debyg yw *lēstēs* sef gwylliaid, neu fandits sydd yn llawer peryclach na *kleptēs* sef lladron arferol, yn ôl Paula Gooder yn ei llyfr 'The Parables'. Yn ôl Paula Gooder roedd aml i fintai o'r gwylliaid yma oedd yn ymosod oherwydd eu bod yn gwrthwynebu gorthrwm y Rhufeiniaid. Eithafwyr gwrth-Rufain oedd y rhain ac yn ymosod ar unrhyw un y tybient eu bod yn gyfeillion gyda'r Rhufeiniaid. Byddai unrhyw sôn am y *lēstēs* felly yn gyrru iasau o ofn i'r Iddewon – a rywsut rydyn ni'n gallu deall brys yr Offeiriad a'r ofn pan welodd y dyn clwyfedig ac aeth yn frysiog heibio'r ochr arall.

A'r Lefiad wedyn – y rhai oedd yn helpu yn y deml – stiwardiaid y deml neu y rhai oedd yng ngofal cerddoriaeth y deml (organyddion os hoffech chi neu warchodwyr y drysau neu rai yn gwneud y cyhoeddiadau!).

Doedd y ddau yma – yr Offeiriad a'r Lefiad ddim am aros. Doedd ganddyn nhw **ddim digon o gonsyrn** am y dyn a gurwyd ac a adawyd yn hanner marw (neu wedi marw hyd y gwydden nhw). **Dyna mae pobl sydd yn an-ofalgar yn ei wneud. Cymeryd arnynt nad ydyn nhw wedi gweld na chlywed cri am gymorth boed ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho, neu ar un o strydoedd ein gwlad.**

Beth felly yw rhai o **nodweddion pobl sydd heb gonsyrn** am eraill.

Onid pobl ydyn nhw sy'n rhy hunanol, yn meddwl am neb ond nhw eu hunain?

- Mae'n siŵr bod yr Offeiriad a'r Lefiad yn bobl prysur a phwysig. O bosib roedden nhw yn rhy brysur i feddwl am ddim ond am eu gwaith a gofynion eu swyddi. Petai'r ddau yn mynd i fyny o Jericho i Jerwsalem, gellid dadlau mai cadw at ofynion eu swyddi yr oedden nhw, ac nad oedden nhw am gael eu halogi trwy gyffwrdd â chorff. Ond mae Luc yn pwysleisio mai mynd i **lawr** o Jerwsalem i Jericho yr oedden nhw. Ar eu **ffordd adre** yr oedden nhw felly.
- Mae'n bosib bod y ddau yma wedi **blino** ac yn hwyr glas i gyrraedd adre. Wedi'r cwbl, roedd yna rai cannoedd o bobl wedi cael eu gwasanaethu ganddynt yn y deml yn Jerwsalem.
- Ryden ni'n darganfod wrth ystyried y ddameg bod y ddau yma wedi'u **hynysu o'r hyn oedd yn digwydd o'u cwmpas**. Doedd yr hyn a ddigwyddai o'u cwmpas yn golygu dim iddyn nhw. Doedd hynny ddim yn bwysig. Hwy eu hunain a'u byd bach hwy oedd yn bwysig, nid dyn yn gorwedd ar y ffordd unig honno.
- **Ofn** wedyn. Mae'n siŵr eu bod yn ofnus. Ofn ymosodiad gan y *lēstēs*. Ac onid twyllo oedd y dyn ar lawr? Onid dyma un o briif driciau'r gwylliaid hyn. Cymryd arnynt eu bod angen cymorth, a phan fyddai rhywun yn aros i gynorthwyo, byddai ciwed o ladron yn dod ac ymosod a dwyn a'u gadael yn hanner marw.

A'r cwestiwn ryden ni'n ei ofyn, faint o'r Offeiriad a'r Lefiad sydd ynon ni?

Tybed nad ydyn ni'n methu gweld anghenion pobl ar adegau oherwydd ein bod yn meddwl ar rywbeth arall, neu ein bod yn rhy brysur yn rhedeg o'r naill le i'r llall, neu wedi'n hynysu yn ein byd bach ni ein hunain ormod i aros i gynnig cymorth, boed air neu arian?

Neu bod gennym ar adegau ofn – ofn gwneud y peth anghywir, ofn dewis yr opsiwn anghywir.

Mae'n siŵr bod rhywfaint o wir yn hynny i gyd. Ac eto onid pwrpas y ddameg yw dangos bod yna Samariaid i'w cael sy'n barod i helpu, yn barod i gynnig cysur, ac yn barod i wneud penderfyniadau sy'n amhoblogaidd weithiau.

EMYN 3 : RHIF 854 Yn gymaint iti gofio un o'r rhain..(Caneuon Ffydd)

GWEDDI:

O Dad, diolch am dy ofal drosom a hynny ar bob achlysur . Dangosaist yn dy fywyd bod gennyt ti gonsyrn am bob person. Derbyniaist y plant a rhoddaist sylw iddynt pan oedd y disgyblion hyd yn oed yn ceisio eu gyrru oddi wrthyt ti. Derbyniaist y dall a'r gwahanglwyfus, derbyniaist Sacheus y casglwr trethi dirmygedig. Dangosaist fod gen ti amser i wrando, amser i drafod ac amser i geryddu os oedd angen, a dangosaist fod gen ti amser i leidr ar y groes hyd yn oed pan oeddet ti mewn gwewyr a phoen dychrynlyd dy hun. Dysg i ninnau, Arglwydd, i fod yn barod i aros a

gwrando cwynion ac ofnau a thrallod ac i beidio â mynd heibio y tu arall. Weithiau, rhaid cyfaddef, byddwn ninnau yn ddiamedd ac yn anwybyddu cri pobl nad oes gennym lawer o feddwl ohonynt. Maddau inni am ein haerllygrwydd a chynorthwya ni i gofio dy fod ti wedi'n dysgu fod pob un person yn bwysig yn dy olwg di. Cynorthwya ni i sylweddoli mai braint pob un ohonom yw ceisio dilyn yr hyn a ddysgaist inni wrth inni ymwneud â'n gilydd ac y byddwn yn deilwng o eiriau Efengyl Mathew:

*Oherwydd bum yn newynog a rhoesoch fwyd imi,
Bum yn sychedig a rhoesoch ddiod imi,
Bum yn ddieithr a chymerasoch fi i'ch cartref
Bum yn noeth a rhoesoch ddillad amdanaf,
Bum yn glaf ac ymwelsoch a mi,
Bum yng ngharchar a daethoch ataf.
Yn wir, rwy'n dweud wrthyf, yn gymaint ag ichi beidio â'i wneud i un o'r rhai lleiaf hyn, nis gwnaethoch i minnau chwaith.*

Amen

EMYN 4: RHIF 868 lôr, gwna fi'n offeryn dy hedd... (Caneuon Ffydd)

CYD-ADRODD Y FENDITH i orffen

Diolch yn fawr i Ifan Alun Puw, Llanuwchllyn am baratoi y gwasanaeth hwn.

Nodiadau, Fideos a gwybodaeth bellach:

Gweler y tudalen Sul Diogelu ar ein gwefan am fwy o wybodaeth ac adnoddau pellach.

<https://panel.cymru/cy/sul-diogelu>

Gall y gwasanaeth hwn gael ei arwain gan un unigolyn neu byddai hefyd yn gweithio'n dda gyda nifer o bobl yn cymryd rhan gyda rôl yr arweinwyr, gweddïau, emynau a'r darlenniadau yn cael eu rhannu.

Rydym wedi cynhyrchu [ffilm o'r weddi Sul Diogelu](#) y gallech ei defnyddio ar ddechrau'r gwasanaeth. Os nad oes gennych gyfleusterau taflunio gallwch ddarllen y weddi sydd wedi'i hargraffu ar dudalen 6. *Diolch yn fawr i'r Parchedig Robin Samuel am ysgrifennu'r weddi a Rhodri Darcy am gynhyrchu ffilm mewn modd mor sensitif. Ac wrth gwrs diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd, gan gynnwys nifer o hyfforddwyr diogelu gwirfoddol y Panel. Mae ar gael yma <https://youtu.be/POvINIOjR8U?si=mHpKVfGjQX-6wI2Q>*

Gallwch hefyd lawrlwytho ein ffilm flaenorol o 2022 [DIOGELU yn ein capeli - YouTube](#) os nad ydych eisoes wedi ei ddefnyddio mewn gwasanaeth

Os hoffech gynnwys rhai **elfennau sy'n addas i blant** yn eich gwasanaeth rydym yn argymhell eich bod yn ymweld â <https://thirtyoneeight.org/get-involved/safeguarding-sunday/> lle gallwch gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau a syniadau pellach ar gyfer Sul Diogelu

Pe dymunnir, gellir lawrlwytho Gweddi – *Unigrwydd* (EBCPCW) sydd i'w gweld ar Teledu Cristnogol Cymru dan y penawd Adnod, Gweddi ac Emyn. Mae hefyd ar Youtube:

<https://www.youtube.com/watch?v=9Cfwn9I7Ymk&list=PLUB15klfbqJzcSlcw-ZvjP8vKZENINX7h&index=19>

Mae'r **Panel Diogelu Cydenwadol** yn cefnogi ac yn cynghori Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru mewn perthynas ag arferion diogelu yn eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc ac oedolion bregus. I gael gwybodaeth am faterion diogelu, hyfforddiant diogelu neu ffurflenni DBS, a manylion am sut i ymateb i bryderon cysylltwch â swyddfa'r Panel Diogelu Cydenwadol: post@panel.cymru 01745 817584 neu ewch i'r wefan <https://panel.cymru/en>

GWEDDI AR GYFER SUL DIOGELU <https://youtu.be/POvINIOjR8U?si=mHpKVfGjQX-6wl2Q>

Gan Robin Samuel

GWEDDIWN

Dduw cariad a chyfiawnder,
yr wyt wedi dweud,
“Diogel yw'r un
sy'n ymddiried yn yr Arglwydd.”

Ar Sul Diogelu
down ynghyd
yn gynulleidfaoedd o'th bobl,
o bob rhan o Gymru,
i ymrwymo
i wneud dy eglwys yn fan
lle gall pawb deimlo'n saff.

Helpa ni i fod
yn gymunedau
agored,
croesawgar,
cynhwysol
a chariadus;
cymunedau
lle gall pobl fyw ynghyd
a ffynnu,
yn rhydd o bob ofn
a phob niwed.

Gyda chywilydd yr ydym yn cydnabod
nad felly y bu bob amser,
a chyflwynwn o'r newydd i ti
y rhai sydd a'u profiad
o'r eglwys yn boen ac yn loes.
Diolchwn am ddewrder y rhai
a fu'n datgelu'r tywyllwch,
yn codi llais ac yn galw i gyfrif.

Maddau i ni,
a helpa dy eglwys
i weithio i newid er gwell
fel y gall fod yn gaer o heddwch a diogelwch
i bawb.

Heddiw, gydag un llais,
gofynnwn am nerth i fod yn eglwys fydd
yn barod bob amser,
i wrando ac i ddysgu,
i werthfawrogi a gofalu,
i garu ac i wasanaethu,
i warchod ac i fod yn lloches diogel.

Heria ni o'r newydd:
i amddiffyn y gwan a'r bregus,
i godi llais dros y rhai
na chlywir eu lleisiau,
i gerdded ffordd gwasanaeth Iesu,
ac i newynu a sychedu am gyfiawnder.

Dduw cariad a chyfiawnder
clyw ein gweddi.
Tosturia wrthym,
iacha ni,
ysbrydola ni,
arwain ni,
yn enw'r un a addawodd
gadw'r praidd i gyd yn ddiogel,
Iesu'r Bugail Da
Amen